GAMBLING COMMISSION

Pwy ydyn ni a beth ydym yn ei wneud

Cyflwyniad i'r Comisiwn Hapchwarae

Cliciwch yma i weld fersiwn i'w hargraffu

pwy ydyn ni

Sefydlwyd y Comisiwn Hapchwarae dan y Ddeddf Hapchwarae 2005 i reoleiddio gamblo masnachol ym Mhrydain Fawr mewn partneriaeth ag awdurdodau trwyddedu.

Rydym hefyd yn rheoleiddio'r Loteri Genedlaethol dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993.

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol (NDPB) a noddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Ar 1 Tachwedd 2014, daeth y Ddeddf Gamblo (Trwyddedu a Hysbysebu) 2014 i rym. Mae'r Ddeddf hon yn gofyn i unrhyw weithredwr sydd eisiau delio gyda, neu hysbysebu i, gwsmeriaid ym Mhrydain gael trwydded weithredu gan y Comisiwn Hapchwarae.

Mae gennym dros 250 o staff, yn bennaf wedi eu lleoli yn ein swyddfeydd ym Mirmingham, gan gynnwys tua 40 o gydweithwyr yn gweithio o adref ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Ariennir ein gwaith trwy ffioedd a osodir gan DCMS ac a delir gan y sefydliadau ac unigolion yr ydym yn eu trwyddedu, ac, o ran swyddogaethau'r Loteri Genedlaethol, gan grant gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

beth ydym yn ei wneud

Rydym yn caniatáu gamblo ac yn sicrhau:

- **ei fod yn rhydd o drosedd**
- **ei fod yn deg ac agored**
- **y diogelir plant a phobl fregus**

ac yn amodol i'r dyletswyddau hyn bod yr enillion i achosion da'r Loteri Genedlaethol wedi eu huchafu.

Rydym yn trwyddedu gweithredwyr ac unigolion ym Mhrydain Fawr sy'n darparu'r canlynol:

- arcedau
- betio
- bingo
- Casino
- meddalwedd gamblo
- peiriannau gamblo
- loterïau
- gamblo o bell yn cynnwys gamblo ar-lein, dros y ffôn, neu trwy unrhyw ddyfais gyfathrebu electronig arall

Rydym hefyd yn gyfrifol am ddyfarnu trwydded unigol i weithredwr masnachol i redeg y Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd mae'r drwydded wedi ei rhoi i Camelot UK Lotteries Ltd.



sut ydyn ni'n rheoleiddio

Rydyn ni'n rheoleiddio mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson. Yn Defnyddio dull seiliedig ar risg, rydym yn canolbwyntio'n hadnoddau ar y materion a gweithredwyr hynny allai gyflwyno'r risg mwyaf i'r amcanion trwyddedu.

Rhaid i bob gweithredwr gamblo masnachol sydd â thrwydded dan y ddeddf Gamblo gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno ac amodau a chodau ymarfer y Drwydded (LCCP).

Mae gan weithredwr y Loteri Genedlaethol drwydded ar wahân, ac rydym yn sicrhau bod y gweithredwr yn cydymffurfio â'r drwydded honno, a hefyd yn monitro a herio'r gweithredwr i gyflawni cymaint o arian â phosibl tuag at achosion da.

Rydym yn brwydro yn erbyn gweithgareddau gamblo anghyfreithiol a llygredd yn ymwneud â betio mewn chwaraeon.

Rydym yn cyhoeddi sut ydym yn dehongli'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn cefnogi ein gweithgaredd cydymffurfio a gorfodi gyda chyfathrebu rheolaidd clir.

Rydym yn cynghori'r llywodraeth trwy gasglu gwybodaeth a dealltwriaeth a chynnal ein trysorfa dystiolaeth.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rheolyddion eraill yn cynnwys awdurdodau trwyddedu a gyda chyrff megis yr heddlu a Chyllid a Thollau EM (HMRC).

Ble galla i gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am y Comisiwn Hapchwarae cymrwch olwg ar y cwestiynau cyffredin a chanllawiau cyflym ar ein gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

beth nad ydym yn ei wneud

cwynion defnyddwyr: nid ydym yn datrys cwynion defnyddwyr. Er enghraifft, ni allwn eich helpu i gael eich arian yn ôl wedi gosod bet neu o beiriant hapchwarae, nac yn dyfarnu ar anghydfodau am wobr y Loteri Genedlaethol.

► Rhaid bod gan weithredwyr sydd â thrwydded Comisiwn Hapchwarae weithdrefnau i ddelio â chwynion cwsmeriaid a threfniadau ar gyfer cyfeirio anghydfodau i drydydd parti annibynnol.

► Mae gan weithredwr y Loteri Genedlaethol hefyd weithdrefnau i ddelio â chwynion chwaraewyr.

Gellir adolygu achosion i weld a yw'r gweithredwr wedi bodloni ei rwymedigaethau fel y sefydlwyd yn ei drwydded weithredu.

cyngor cyfreithiol: nid ydym yn rhoi cyngor cyfreithiol i helpu datblygu modelau neu syniadau busnes.

► Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol ynglŷn â'r Ddeddf a'n hymagwedd.

rheoleiddio betio ar ystod

► Caiff betio ar ystod ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

rheoleiddio *pob* gwefan gamblo: rhaid i bob gwefan gamblo yn masnachu gyda, neu'n hysbysebu i, ddefnyddwyr ym Mhrydain gael trwydded Comisiwn Hapchwarae. Cyn gamblo ar-lein, gwiriwch fod y gweithredwr wedi ei drwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae. Am ragor o wybodaeth darllenwch ein taflen i ddefnyddwyr: ***beth i gadw llygad amdano cyn gamblo***

cyhoeddi trwyddedau eiddo: cyhoeddir trwyddedau gan awdurdodau trwyddedu sydd hefyd yn gyfrifol am:

- gyhoeddi hawlenni i weithredwyr gamblo (sy'n caniatáu gamblo gyda betiau isel mewn lleoliadau nad ydynt yn bennaf ar gyfer gamblo)
- gofrestru cymdeithasau – caniatáu iddynt gynnal loterïau bychan
- gydymffurfiad gydag a gorfodi'r Ddeddf Gamblo 2005 yn lleol.

gadw gamblo yn deg a diogel i bawb

www.gamblingcommission.gov.uk

Gambling Commission ■ Victoria Square House ■ Birmingham ■ B2 4BP
Ffôn: 0121 230 6666 ■ Ffacs: 0121 230 6720